**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 11 Mehefin 2003 |
| **Amser:** | 09.00am tan 12.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:** **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| David Melding **(Cadeirydd)** | Canol De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Swyddogion yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| John Hill Tout | Is-adran Perfformiad, Ansawdd a Rheoleiddio'r GIG |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwraig, yr Adran Polisi Cymdeithasol |

**Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** *(9.05 - 10.05am)*
**Papur: HSS(2)-01-03(p.1)**

2.1 Dywedodd y Gweinidog y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys mwy o fanylder o dan bob pwnc. Ymddiheurodd nad oedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am yr adolygiad ar y cyd o Wasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent. Byddai'n cynnwys hynny yn ei hadroddiad nesaf.

2.2 I ymateb i sylwadau a chwestiynau'r Aelodau am ei hadroddiad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

Wythnos y Gofalwyr

- Cafodd rôl ysgolion cynradd ac uwchradd ei chydnabod i nodi a chefnogi gofalwyr ifanc. Byddai'r Gweinidog yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer y canllawiau sydd ar gael i ysgolion.
- Roedd y cynllun grant arbennig i Ofalwyr yn cael ei werthuso a byddai'r canlyniadau yn cael eu rhoi ar gael i Aelodau.

2.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi barn y Pwyllgor y dylai'r gwerthusiad ofyn i ba raddau yr oedd amcanion gwreiddiol y cynllun yn cael eu cyflawni.

"Cadw Cydbwysedd"

- Cynigiwyd cynnydd cyffredinol o 9% eleni ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol (BILl) i fynd i'r afael â materion capasiti.
- Darparwyd ystafelloedd rhagweithiol ar gyfer cleifion sy'n gadael yr ysbyty a oedd yn darparu lle cyfforddus iddynt ar y diwrnod yr oeddent yn gadael ac yn rhyddhau gwelyau.
- Roedd yn bwysig defnyddio gwelyau yn fwy effeithiol.
- Cafodd rhaglen ei chychwyn ar gyfer 'Asiantwyr Newid' i gydweithio â'r holl bartneriaid i nodi a goresgyn ffactorau a oedd yn llyffetheirio trosglwyddo gofal. Byddai dehongliad o effaith y gwaith gydag asiantwyr newid yn cael ei gynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog.
- Roedd y gyfradd gyfartalog o ran llenwi gwelyau yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch na'r 85% a argymhellwyd yn "Cadw Cydbwysedd".
- Roedd system newydd ar gyfer casglu data ar oedi cyn trosglwyddo gofal wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2002. Ni fyddai'n bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol â ffigyrau'r blynyddoedd blaenorol, ond byddai trosolwg o'r gostyngiad o ran oedi cyn trosglwyddo gofal yn cael ei ddarparu.
- Byddai targedau newydd er mwyn gostwng yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal yn cael eu trafod â llywodraeth leol fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol.
- Roedd awdurdodau lleol bellach yn cael eu hariannu drwy'r grant cefnogi refeniw i ddarparu pecynnau gofal. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cytundebau polisi rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau unigol. Roedd y drafodaeth yn parhau â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwneud â rhoi'r cytundebau polisi ar gyfer awdurdodau lleol unigol ar gael i Aelodau.

Gwasanaethau Orthopedig yng Ngwent

- Yn sgil gweithio ar benwythnosau a defnyddio'r sector preifat, roedd nifer yr achosion lle bu'n rhaid aros am hir wedi gostwng.
- Roedd cynlluniau i addasu ward ar gyfer gwaith orthopedig yn Ysbyty Neville Hall yn mynd rhagddynt. Roedd yr achos busnes yn cael ei werthuso.

Ffigyrau Gweithlu'r GIG

- Byddai adroddiad nesaf y Gweinidog yn cynnwys dadansoddiad o'r ffigyrau ar gyfer swyddi gwag.

Agenda ar gyfer Newid

- Byddai gwybodaeth am gamau i ostwng gwariant ar nyrsys asiantaeth yn cael ei ddarparu.
- Roedd adnoddau ariannol wedi cael eu dyrannu i weithredu'r Agenda ar gyfer Newid.
- Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Kirsty Williams am effaith yr Agenda ar gyfer Newid ar Nyrsys Practis, a oedd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y practis.

Arloesi mewn Gofal

- Roedd holl gynlluniau Arloesi mewn Gofal yn cael eu gwerthuso gan Fwrdd Cenedlaethol Arloesi mewn Gofal i sicrhau eu bod yn cynrychioli gwerth am arian.
- Byddai adroddiad ar lwyddiant y tair rhaglen newydd (Llawdriniaethau Dydd, Endoscopi a Ffrydio Damweiniau ac Achosion Brys) yn cael ei ddarparu ar ôl cwblhau pob rhaglen.

Grwp Strategaeth Gofal Cymru

- Cwblhawyd adroddiad y Grwp ym mis Ebrill ac roedd ei argymhellion yn cael eu hystyried.  Bydd adroddiad manylach yn cael ei gynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog.

<u>Rhaglen Is-ddeddfwriaeth 2003-04</u>

2.4 Roedd y diffyg gwybodaeth yn y golofn diben yn effeithio ar allu'r Aelodau i asesu pa ddarn o ddeddfwriaeth y dylent ei ystyried yn fwy manwl.  Cytunodd y Gweinidog y byddai hyn wedi'i gywiro yn ei hadroddiad nesaf.

2.5 Nododd y Pwyllgor yr eitemau canlynol i'w hystyried:

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
13(03) Rheoliadau Asiantaethau Gofal yn y Cartref (Cymru) 2003

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**
30(03) Olrhain a Labelu Bwyd GM
43(03) Rheoliadau Labelu Bwyd (Cymru) 2002
50(03) Bwyd a Phorthiant GM

2.6 Nodwyd yr eitemau canlynol posibl i'w hystyried, hyd nes ceir eglurhad o'u diben:

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
06(03) Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003

11(03) Rheoliadau Lleoliadau Oedolion (Diwygio) (Cymru) 2003

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**
39(03) Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 200?
40(03) Rheoliadau Cynnyrch Llaeth (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 200?

**Pwyntiau Gweithredu**

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y gwerthusiad o'r cynllun grant arbennig i Ofalwyr.
- Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Kirsty Williams ynghylch effaith yr Agenda ar gyfer Newid ar Nyrsys Practis, a oedd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y practis.  Byddai copi'n cael ei ddosbarthu ymysg yr Aelodau eraill.
- Byddai'n ceisio cael eglurhad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes o'r canllawiau sydd ar gael i ysgolion i gefnogi gofalwyr ifanc.
- Byddai'r Gweinidog yn adrodd yn ôl ar ganlyniad ei thrafodaethau â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch rhoi cytundebau polisi ag awdurdodau lleol unigol ar gael i Aelodau'r Pwyllgor.
- Byddai gwybodaeth yn cael ei darparu ar gamau i ostwng y gwariant ar nyrsys asiantaeth.
- Byddai'r eitemau canlynol yn cael eu cynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog:
  - adolygiad ar y cyd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mlaenau Gwent;
  - dehongliad o effaith gwaith yr asiantwyr newid;
  - dadansoddiad o ffigyrau swyddi gwag y GIG;
  - rhagor o wybodaeth ar argymhellion adroddiad Grwp Strategaeth Gofal Cymru;
  - mwy o wybodaeth am ddiben y deddfwriaethau arfaethedig;
  - datganiad manwl ar bortffolio'r Gweinidog.

**Eitem 3: Materion Busnes** *(10.05 - 10.20am)*
**Blaenraglen Waith Strategol a Manwl**
**Papur: HSS(2)-01-03(p.2a)**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor â'r egwyddor o fabwysiadu patrwm o gynnal cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar fusnes arferol neu sy'n canolbwyntio ar adolygiad manwl neu waith craffu ar bolisi, a hynny bob yn ail. Ond byddai angen adolygu'r patrwm hwn pe byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn llai aml.

3.2 Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn gyntaf ar bynciau posibl yr adolygiadau polisi. Byddai amser yn cael ei neilltuo yn nhrydydd cyfarfod y Pwyllgor i ystyried yr ymatebion. Byddai "Un Llais Cymru", y sefydliad ambarél ar gyfer cynghorau tref a chymuned, yn cael ei ychwanegu at y rhestr o ymgynghoreion. Byddai gwasanaethau niwroleg yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o bynciau posibl.

3.3 Byddai'r Gweinidog yn darparu datganiad manylach ar ei phortffolio yn ei hadroddiad nesaf fel Gweinidog.

**Pwynt Gweithredu**

- Ychwanegu Un Llais Cymru at y rhestr o ymgynghoreion.
- Neilltuo amser yn y trydydd cyfarfod i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Tynnu gwasanaethau niwroleg oddi ar y rhestr o bynciau posibl ar gyfer yr adolygiadau polisi.

**Camau heb eu cymryd eto: "Ar Goll Mewn Gofal" - Adroddiad ar yr Ymchwiliad Tribiwnlys i Gam-drin Plant mewn Gofal yng Ngogledd Cymru (Adroddiad Waterhouse)**
**Papur: HSS(2)-01-03(p.2b)**

3.4 Cafodd ymateb Sandy Blair ei nodi, er bod rhai Aelodau'n teimlo ei fod yn amwys ac nad oedd yn cynnig y sicrwydd yr oedd y Pwyllgor wedi gobeithio ei gael. Cytunwyd i ystyried y mater hwn eto yn y dyfodol.

**Protocol Drafft ar gyfer gwaith y Pwyllgor o Graffu ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol ac Is-ddeddfwriaeth**
**Papur: HSS(2)-01-03(p.2c)**

3.5 Cytunwyd ar y protocol drafft.

**Penodiadau Cyhoeddus**

3.6 Enwebwyd David Melding a Val Lloyd i oruchwylio'r penodiadau cyhoeddus yr oedd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol amdanynt.

**Eitem 4: Y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol)** *(10.35 - 12.00pm)*
**Papurau: HSS(2)-01-03(p.3) a HSS(2)-01-03(p.3a)**

4.1 Wrth ystyried y Mesur canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y pwyntiau o eglurhad a'r gwelliannau a nododd yr Aelodau ymlaen llaw (p.3a)

**Rhan 1: Ysbytai Sefydledig y GIG**
**Pwynt o eglurhad a godwyd gan Grwp Plaid Cymru**

4.2 Dywedodd Dai Lloyd fod y pwyntiau wedi'u codi am fod nifer fawr o gleifion o Gymru yn cael eu trin yn Lloegr a bod angen diogelu eu sefyllfa. Roedd perygl hefyd y gallai ysbytai sefydledig fforddio talu mwy i staff a dwyn staff oddi ar ysbytai yng Nghymru.

4.3 I ymateb i hyn a'r cwestiynau atodol a godwyd gan Aelodau eraill, dywedodd y Gweinidog fod cleifion o Loegr hefyd yn derbyn triniaeth mewn ysbytai yng Nghymru drwy drefniadau dwyochrog y cytunwyd arnynt â'r ysbytai a chyrff comisiynu. Dywedodd y byddai'r trefniadau hyn yn parhau ar ôl sefydlu ysbytai sefydledig. Roedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant (148) i egluro'r sefyllfa'n ymwneud ag ysbytai sefydledig a gwasanaethau i gleifion y tu allan i Loegr, a oedd yn dileu unrhyw hawl a oedd gan y rheoleiddiwr mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal iechyd eraill. Roedd hwn yn dweud fod yn rhaid i bob Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys gwasanaethau i gleifion y GIG o rannau eraill o'r DU.

4.4 Nid oedd nifer yr aelodau Cymreig ar fyrddau ysbytai sefydledig wedi'i gynllunio. Roedd ansawdd a chysondeb o ran gofal yn fater i'r cyrff comisiynu ei ystyried. Byddai yna rôl i Gynghorau Iechyd Cymunedol Cymru hefyd i gynrychioli cleifion petai problemau'n codi.

4.5 Nid oedd wedi'i benderfynu eto i ba raddau y byddai rhyddid a phwerau ariannol ysbytai sefydledig yn cael eu cynyddu. Byddent wedi gallu cynyddu hyblygrwydd wrth recriwtio a chyflogi staff, ond nid oeddent yn rhagweld y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar staffio yng Nghymru.

4.6 Cytunodd y Gweinidog i egluro beth oedd rôl y byrddau iechyd lleol a chynghorau iechyd cymunedol wrth sicrhau bod cleifion sy'n byw yng Nghymru yn gallu cael eu trin mewn ysbytai sefydledig yn Lloegr.

**Gwelliant 1 - cynigiwyd gan Jonathan Morgan AC**

Ar ôl Rhan 1 o'r Mesur i ddarparu ar gyfer sefydlu ymddiriedolaethau sefydledig GIG yng Nghymru.

<u>Ymateb y Gweinidog</u>

Roedd yr agenda ar gyfer diwygio'r GIG yng Nghymru yn ymwneud â datblygu dull o wella gofal iechyd a pherfformiad sy'n addas ar gyfer anghenion pobl Cymru ar sail gwaith partneriaeth. Nid oedd y statws ysbytai sefydledig yn addas ar gyfer y dull hwn o weithredu.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 1

O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 8

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn |
|---|---|
| David Melding | Jocelyn Davies |
| Jonathan Morgan | John Griffiths |
| | Jane Hutt |
| | Ann Jones |
| | Dai Lloyd |
| | Val Lloyd |

Gwenda Thomas
Kirsty Williams

Casgliad

Gwrthodwyd y gwelliant

**Gwelliant 2 - cynigiwyd gan Grwp Plaid Cymru**

Ychwanegu cymal 37 newydd a ail-rifo'r cymalau eraill a ganlyn yn unol â hynny:

*Gallai'r Cynulliad drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer sefydlu: corff, neu gyrff, ar gyfer (i) archwilio gofal iechyd (ii) ac arolygu gofal iechyd.*

Y Cefndir

Cynigiwyd y gwelliant hwn i alluogi'r Cynulliad i greu braich Gymreig o'r Comisiwn ar gyfer Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd (CHAI) petai'n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol.

Ymateb y Gweinidog

Roedd y gwelliant yn ddiangen. Byddai gan CHAI ran bwysig i'w chwarae o hyd yng Nghymru wrth gynnal adolygiadau cenedlaethol ar hyd a lled Cymru a Lloegr ar fathau penodol o ofal iechyd. Byddai'r Arolygiaeth Gofal Iechyd yng Nghymru, corff newydd wedi'i greu o fewn y Cynulliad, yn cynnal arolygon ac adolygiadau ar y gofal iechyd a ddarperir gan gyrff Cymreig. Gwneir hyn gan ddefnyddio'r model a ddatblygwyd ar gyfer adolygiadau ar y cyd ar wasanaethau cymdeithasol.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 2

O blaid 3, Ymatal 0, Yn erbyn 7

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn |
| --- | --- |
| Jocelyn Davies | John Griffiths |
| Dai Lloyd | Jane Hutt |
| Kirsty Williams | Ann Jones |
| | Val Lloyd |
| | David Melding |
| | Jonathan Morgan |
| | Gwenda Thomas |

Casgliad

Gwrthodwyd y gwelliant

**Gwelliant 3 - cynigiwyd gan Jonathan Morgan AC**

Diwygio Rhan 2 o'r Mesur i ganiatáu i'r CHAI ymgymryd â chyfrifoldebau yng Nghymru fel yn Lloegr. Dylai'r Mesur ganiatáu i'r Cynulliad gomisiynu'r CHAI i gynnal adolygiadau ar gyrff GIG unigol yn ogystal â galluogi'r CHAI i wneud hynny'n annibynnol. O dan gymal 52 mae gan y CHAI y grym i gynnal arolygon ar y modd cyffredinol y caiff math arbennig o ofal ei ddarparu, ond nid ar gyrff GIG Cymreig unigol.

Ymateb y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail y byddai'n dileu gallu'r Cynulliad, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, i greu ei uned arolygu iechyd ei hun.

Prif Bwyntiau Trafod

- Mynegwyd pryder am y ffaith y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymyrryd â gwaith yr Arolygiaeth Gofal Iechyd yng Nghymru.
- Roedd angen i unrhyw drefn arolygu ddangos ei bod yn annibynnol ar y Llywodraeth.

Cadarnhaodd Peter Jones fod y Mesur yn galluogi CHAI i gynnal adolygiadau cenedlaethol a'r Cynulliad i gynnal adolygiadau unigol ar ysbytai, ymddiriedolaethau, etc  Ni fyddai'r gwelliant fel ag y mae yn dileu pwerau'r Cynulliad o dan gymal 66 fel y cyfryw, ond byddai'n caniatáu i'r CHAI, drwy alluogi iddo gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau ar gyrff unigol yng Nghymru, wneud yr un peth. Byddai hyn yn ymestyn ei bwerau.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 3

O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 5

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

Jocelyn Davies
Dai Lloyd
David Melding
Jonathan Morgan
Kirsty Williams

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

John Griffiths
Jane Hutt
Ann Jones
Val Lloyd
Gwenda Thomas

Casgliad

Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais yn erbyn y gwelliant.  Gwrthodwyd y gwelliant

**Gwelliant 4 - cynigiwyd gan Jonathan Morgan AC**

Dileu is-adran (2) o gymal 123.  Byddai hyn yn dileu hawl y Cynulliad i orfodi ymchwiliad, i'w gynnal gan CHAI, yn breifat.

Ymateb y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail ei fod yn mynd yn erbyn y cytundeb datganoli, a oedd yn galluogi'r Cynulliad i weithredu heb gyfyngiadau.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 4

O blaid 3, Ymatal 0, Yn erbyn 7

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

David Melding
Jonathan Morgan
Kirsty Williams

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

Jocelyn Davies
John Griffiths
Jane Hutt
Ann Jones
Dai Lloyd
Val Lloyd
Gwenda Thomas

Casgliad

Gwrthodwyd y gwelliant

**Gwelliant 5 - cynigiwyd gan Jonathan Morgan AC**

Yn is-adran (5) o gymal 123 dileu "awdurdod" ac ychwanegu "person". Byddai hyn yn sicrhau y gallai'r person sy'n cynnal yr ymchwiliad CHAI benderfynu peidio â chyhoeddi adroddiad. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu unrhyw gyfle i ymyrraeth ddigwydd yn y ffordd yr oedd adolygiad yn cael ei gynnal.

Ymateb y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail ei fod yn mynd yn groes i'r cytundeb datganoli, a oedd yn galluogi'r Cynulliad i weithredu heb gyfyngiadau.

Cadarnhaodd Peter Jones y gellir herio'r penderfyniad i beidio â chyhoeddi adroddiad ar y sail ei fod yn benderfyniad afresymol. Nid oedd y Mesur yn diffinio "amgylchiadau eithriadol".

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 5

O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 5

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn |
|---|---|
| Jocelyn Davies | John Griffiths |
| Dai Lloyd | Jane Hutt |
| David Melding | Ann Jones |
| Jonathan Morgan | Val Lloyd |
| Kirsty Williams | Gwenda Thomas |

Casgliad

Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais yn erbyn y gwelliant. Gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 6 - cynigiwyd gan Jonathan Morgan AC**

Dileu is-adran (2) o gymal 131. Mae cymal 131 yn caniatáu i'r Cynulliad gynnal ymchwiliadau i'w gyfrifoldebau ei hun wrth arfer ei swyddogaethau o dan bennod 14 (swyddogaethau cyfatebol CHAI) a phennod 6 (swyddogaethau cyfatebol CSCI). Byddai'r gwelliant hwn yn dileu rôl y Cynulliad wrth benderfynu a ddylai ymchwiliad o'r fath gael ei gynnal yn breifat. Byddai'n galluogi'r person sy'n cynnal yr ymchwiliad i benderfynu.

Ymateb y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail ei fod yn mynd yn groes i'r cytundeb datganoli, a oedd yn galluogi'r Cynulliad i weithredu heb gyfyngiadau.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 6

O blaid 3, Ymatal 0, Yn erbyn 7

| Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid | Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn |
|---|---|
| David Melding | Jocelyn Davies |
| Jonathan Morgan | John Griffiths |
| Kirsty Williams | Jane Hutt |
| | Ann Jones |
| | Dai Lloyd |
| | Val Lloyd |

Gwenda Thomas

Casgliad

Gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 7 - cynigiwyd gan Jonathan Morgan AC**

Yn is-adran (4) o gymal 131 dileu "Cynulliad" ac ychwanegu "person". Eto, o dan yr adran hon gallai'r Cynulliad roi cyfarwyddyd i beidio â chyhoeddi'r adroddiad. Y person sy'n cynnal yr ymchwiliad ddylai benderfynu ar hyn.

Ymateb y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail ei fod yn mynd yn groes i'r cytundeb datganoli, a oedd yn galluogi'r Cynulliad i weithredu heb gyfyngiadau.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 7

O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 5

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

Jocelyn Davies
Dai Lloyd
David Melding
Jonathan Morgan
Kirsty Williams

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

John Griffiths
Jane Hutt
Ann Jones
Val Lloyd
Gwenda Thomas

Casgliad

Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais yn erbyn y gwelliant. Gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 8 - cynigiwyd gan Jonathan Morgan AC**

Pan fydd y person sy'n cynnal adolygiad o dan gymal 131 yn penderfynu peidio â chyhoeddi'r adroddiad, dylid cael rhyw system ar gyfer craffu. Gan gymryd y byddai'r Gweinidog yn gweld yr adroddiad, fel y byddai'r Cynulliad wedi comisiynu'r adolygiad yn y lle cyntaf, dylai'r adroddiad gael ei archwilio yn annibynnol.

Ymateb y Gweinidog

Byddai'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Iechyd yng Nghymru yn cael eu cyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 8

O blaid 2, Ymatal 1, Yn erbyn 7

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

David Melding
Jonathan Morgan

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

Jocelyn Davies
John Griffiths
Jane Hutt
Ann Jones
Dai Lloyd
Val Lloyd

Gwenda Thomas

Kirsty Williams wnaeth ymatal.

<u>Casgliad</u>

Gwrthodwyd y gwelliant.